

# Papur Briffio Grŵp Strategol Bwydo Babanod

Croeso i'n papur briffio cyntaf sydd yn rhoi diweddariad i chi ar Strategaeth Bwydo Babanod.

Mae bron i ddwy flynedd wedi mynd heibio erbyn hyn ers i'r strategaeth gael ei lansio ac er gwaethaf yr iechyd, mae cryn gynnydd wedi cael ei wneud i wella ein hymagwedd tuag at rhyddfa a lles ein babanod a'n plant bach yng Ngogledd Cymru. Mae'r fflyddyn ddiwethaf wedi bod yn arbennig o anodd i lawer o bobl, ond mae'n amlwg bod bwydo babanod wedi parhau i fod yn fiaenoriaeth, ac mae llawer o fentrau'n dal i gael eu datblygu.

Isod mae rhai enghreifftiau o'r cynnydd sy'n cael ei wneud i gefnogi pob plentyn yng Ngogledd Cymru i gael y dechrau gorau mewn bywyd.

*Liz Fletcher, Cadeirydd Grŵp Strategol Bwydo Babanod BIPBC*



## Gwasanaethau mamolaeth

Ym mhob Uned Mamolaeth yng Ngogledd Cymru, mae gennym Fydwrraig Arweiniol Bwydo Babanod i or-weld gwelliannau gwasanaeth a sicrhau ein bod yn gwella gwybodaeth a sgiliau staff.

Rydym yn buddsoddi mewn hyfforddiant pellach ar fwydo ar y fron ar gyfer gweithwyr cymorth mamolaeth yn yr ysbty er mwyn gwella ansawdd cefnogi bwydo ar y fron yn gynnar.



**Ffordd amgenach o rannu gwybodaeth gyda mamau a theuluoedd**  
Mae ein harchwiliad Safonau Gofal misol UNICEF Menter Gyfeillgar i Fabanod (BFI) yn ceisio gwrando ar farn mamau a theuluoedd ar y gofal aasant. Yn dilyn canlyniadau archwilio yn 2020, rydym wedi datblygu telycn addodau newydd i gefnogi sgysiaid ôl-enedigol cynnar mwy effeithiol gyda mamau a theuluoedd.



## Meithrin y Dyfodol

Mae llyfryn "Meithrin y Dyfodol" wedi'i greu aelodau'r Grŵp Strategol Bwydo Babanod, fel adnodd i gefnogi teuluoedd gyda bwydo ar y fron yn ystod y deg niwrnod cyntaf ar ôl i'r babi gael ei eni. Mae codau QR wedi'u cynnwys i gyfeirio at ddolenni electronig defnyddiol i wybodaeth bellach.

Mae 20,000 o gopïau o ganllaw 'Meithrin y Dyfodol' wedi'u cynhyrchu yn ystod haf 2020, gyda 6000 o gopïau wedi cael eu rhoi i bob un o'r tri ysbty yng Ngogledd Cymru a 2000 wedi cael eu darparu i Fydwragedd Cymunedol eu dosbarthu ar ôl genedigaethu yn y cartref. Mae'r canllaw hefyd ar gael i'w lawr lwytho o dudalen Bwydo ar y Fron BIPBC.



[Cliciwch i weld y llyfryn](#)

## Prosiect Gwella Ansawdd

Un o'r camau sy'n ofynnol gan gynllun Strategol Bwydo Babanod BIPBC yw defnyddio'r Dull Gwella wrth Ymarfer er mwyn ehangu ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbty, gyda'r bwriad o wella cyfraddau bwydo ar y fron adeg eu rhyddhad o'r ysbty ac ar ôl 10 diwrnod.

Fel rhan o brosiect peilot 12 mis, mae tri Gweithiwr Cymorth Bwydo Babanod wedi eu penodi'n Ionawr 2021 yn Ysbty Maelor Wrecsam i wella cefnogaeth bwydo babanod yn gynnar i famau. Y bwriad yw dysgu a gwerthuso'r prosiect er mwyn helpu i wella'r gefnogaeth ledled Gogledd Cymru.

## Unedau Peditreg

Oddi fewn i'r Unedau Peditreg yr Ysbty, rydym wedi gwneud cychwyn cadarnhaol iawn ar ein taith tuag at cyflawni safonau Gofal Gyfeillgar i Fabanod (BFI) UNICEF ar gyfer lleoliadau ward Plant. Rydym wedi dechrau hyfforddi nyrsw arweiniol a fydd yn arwain ar gyflwyno'r prosiect BFI mewn wardiau plant aciwt o dan arweiniad y Cydlynnydd Bwydo Babanod. Mae mwy o bwyslais wedi'i roi i sicrhau fod pob Paediatregydd yn cwblhau hyfforddiant ar-lein UNICEF BFI fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

## Unedau'r Newydd-anedig

Mae gan yr unedau newydd enedigol ar draws BIPBC ddull amlddisgyblaethol o ymrwnged bwydo babanod er mwyn hyrwyddo'r arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y boblogaeth newydd enedigol a'u teuluoedd. Mae unedau newydd enedigol BIPBC wedi cyflawni achrediad Cam 1 UNICEF BFI ac maent wrthi'n gweithio tuag at achrediad Cam 2 BFI.



## Ymwelwyr Iechyd

Mae Tîmau Ymwelwyr Iechyd ledled Gogledd Cymru wedi cynnal eu statws achrededig Menter Gyfeillgar i Fabanod (BFI). Mae'r rôl Ymwelwydd Iechyd Arweiniol Bwydo Babanod wedi'i datblygu yn nhimau'r Dwyrain a'r Gorllewin ac mae'r tîm Canolog wrthi'n bwyr ymlaen â'r datblygiad gwasanaeth ar hyn o bryd.

Mae Ymwelwyr Iechyd sydd â diddordeb clinigol wedi cael eu hariannu i ddilyn hyfforddiant bwydo ar y fron / llaetha ychwanegol i gynyddu broffidi a'r gwaith pwysig yma'n ymhellach yn ein tîmau ledled Gogledd Cymru a chreu gwybodaeth a sgiliau ehangach oddi fewn i dimau Ymwelwyr Iechyd.

